| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Tachwedd 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Teitl:** | **Proses y Gyllideb 2016/17** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad am y broses o ddarparu cyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi diweddariad o'r sefyllfa gyfredol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn â'r cynnydd diweddaraf o ran y broses o bennu'r gyllideb mewn gweithdy cyllideb i aelodau ar 26 Hydref 2015 ac mae crynodeb i'w weld yn y rhestr isod. Roedd y cyflwyniad (sydd wedi'i amgáu ) yn rhoi'r manylion canlynol

- Effaith Cyllideb yr Haf
- Adolygiad gwariant y Deyrnas Unedig (disgwylir ar 25 Tachwedd 2015) a'r effaith bosibl ar y gweinyddiaethau datganoledig
- Effaith polisïau cenedlaethol i warchod elfennau o gyllidebau cynghorau
- Y prif ragdybiaethau wrth gynllunio'r gyllideb a'r mwyaf sylweddol ohonynt yw gostyngiad arian parod o -4% i setliad cyllideb refeniw'r Cyngor
- Bod effaith y setliad terfynol yn fwy neu'n llai na -4%
- Effaith rhagdybiaethau cynllunio Treth y Cyngor a'r cyd-destun
- Y risgiau o ran ariannu grantiau refeniw penodol yn y dyfodol
- Newidiadau i amserlen y gyllideb i ddarparu ar gyfer y drafft hwyr o setliad cyllideb llywodraeth leol (disgwylir ar 9 Rhagfyr yn hytrach nac ar ddechrau Hydref)
- Sicrwydd y byddai unrhyw gynigion ar gyfer y gyllideb sy'n mynd ger bron y Cyngor i gael eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr (h.y. a ddrafftiwyd cyn datgan setliad y gyllideb) yn fesurau effeithlonrwydd ac nid yn doriadau i wasanaethau nac yn gynnydd mewn ffioedd a thaliadau.

Trafodwyd y rhagdybiaethau diweddaraf o ran cynllunio'r gyllideb a cheir crynodeb isod. Mae'r bwlch yn y gyllideb yn tybio y gosodir y setliad ar -4%.

| | **2016/17**<br>**£'000** |
|---|---|
| **Targed Arbedion Diwygiedig** | 8,003 |
| **Arbedion y Cytunwyd Arnynt** | |
| Cam 1 | 870 |
| Cam 2 | 1,785 |
| Cam 3 | - |
| Cam 4 | 1,290 |
| **Cyfanswm y Cynigion** | **3,945** |
| **Amcangyfrif o'r Bwlch** | **-4,058** |

Hyd yma, mae gwerth tua £2 filiwn o gynigion wedi eu nodi i'w cynnwys yng Ngham 5 a'r bwriad oedd mynd â'r cynigion hynny ger bron y Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Y rheswm dros fynd â'r cynigion hyn ger bron i gael eu cymeradwyo cyn cyhoeddi'r setliad yw eu bod yn fesurau effeithlonrwydd neu foderneiddio, neu yn achosion o addasu cyllidebau er mwyn cyfateb â gwariant neu risg.

Rhoddwyd esboniad o'r prif dybiaethau a ddefnyddir ym mhroses y gyllideb ac amlygwyd mai'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw lefel y Setliad i awdurdodau lleol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Mae pob newid canrannol i werth y Setliad yn cyfateb i oddeutu £1.4 miliwn. Ar hyn y bryd nid oes unrhyw awgrym o lefel y Setliad tebygol. Mae dadansoddi cyllideb haf y Deyrnas Unedig yn awgrymu y gallai'r Grant Bloc i Gymru fod yn gymharol wastad yn nhermau arian parod dros y ddwy flynedd nesaf, yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod y meysydd gwariant 'gwarchodedig' yn ffurfio rhan sylweddol o'r 'Bloc' cyffredinol o gyllid sydd wedi ei ddatganoli (yn bennaf iechyd ac ysgolion). Felly, yr hyn sydd i'w ystyried yng Nghymru yw'r polisi ar lefel genedlaethol a fydd yn llywio dosbarthiad cyllid rhwng llywodraeth leol ac iechyd.

Fel arfer cyhoeddir y Setliad Drafft ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gynnar ym mis Hydref, ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi tan 9 Rhagfyr gan nad yw Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei gyhoeddi tan 25 Tachwedd. Bydd yr Adolygiad Gwariant yn penderfynu ar lefel y Grant Bloc i Gymru.

Bydd cyhoeddi'r Setliad Drafft yn hwyr yn golygu efallai y bydd angen addasu amserlen y gyllideb. Mae'n rhaid i'r Cyngor bennu'r gyllideb mewn pryd i fedru cynhyrchu ac anfon biliau Treth y Cyngor ym mis Mawrth. Yn ddibynnol ar lefel y Setliad, mae'n debygol y bydd angen cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor Llawn i gwblhau'r gyllideb ym mis Chwefror.

Ni chyhoeddir y Setliad Llywodraeth Leol terfynol tan 2 Mawrth 2015. Cafwyd sicrwydd na ddylai fod unrhyw symudiad negyddol rhwng gwerthoedd y Setliad Drafft a'r Setliad Terfynol. Fel arfer, bydd mân newidiadau data rhwng y ddau, ond cafwyd sicrwydd y bydd hyn wedi'i ystyried yn y fersiwn ddrafft. Felly, bydd yn rhaid seilio cyllideb derfynol y Cyngor a Threth y Cyngor ar y Setliad Drafft. Mae cyngor cyfreithiol cychwynnol yn awgrymu bod hyn yn dderbyniol cyhyd ag nad yw'r Setliad Terfynol yn wahanol iawn i'r fersiwn ddrafft. Ni fydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn mynd gerbron y Senedd tan 8 Mawrth.

Yn Atodiad 2 mae llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amlinellu'r amserlen ac yn nodi rhai o'r materion. Mae'r amserlen yn peri rhai risgiau os yw gwerthoedd y setliad yn newid yn sylweddol neu os oes problemau wrth gytuno ar y gyllideb yn genedlaethol. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae bod â rheolaeth effeithiol dros gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Efallai y bydd ar y Cyngor angen gwneud gwerth £8.8 miliwn o arbedion a mesurau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad?

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses fynd rhagddi.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd hon yn parhau'n broses heriol iawn a bydd rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y daith. Mae ymrwymiad a chefnogaeth yr aelodau etholedig i'r broses o wneud penderfyniadau ac o graffu ar y broses yn hanfodol.

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Wedi eu hymgorffori'n rhan o'r broses mae sawl pwynt adolygu er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn parhau ar y trywydd iawn a bod modd ei diwygio os nad ydyw. Mae'r ansicrwydd ynglŷn â lefel ac amseriad y Setliad yn golygu y gall y bwlch cyllidol a amcangyfrifwyd newid ar gyfer 16/17 ond mae'n rhaid edrych ar hyn yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd Setliadau negyddol yn parhau yn y tymor canolig. Mae'r hysbysiad hwyr eleni'n peri rhai risgiau, ond ar hyn o bryd credir bod modd dygymod â nhw.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, o asesu ac o gytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses fel y'i hamlinellwyd yn cynnwys cyfle i adolygu a diwygio os oes angen.

Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi eu nodi mewn adroddiadau blaenorol. Dynodir ac amlygir y risgiau ariannol a'r risgiau i wasanaethau mewn gweithdai cyllideb wrth ddatblygu'r cynigion.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol mewn modd priodol.